Cofnodion o Bwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 10fed Mai, 2006 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Cyng Ros Bellamy, Cyng Pamela Steane Price, Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Fran Murphy
Mr Des Davies, Swyddog Technegol. Mr Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Cyng Charlotte Leadbeater

6773/ Mai/ 06 Ceisiadau Cynllunio i'w Hystyried:

E/12833 NEWID DEFNYDD O SWYDDFA I UN DEINTYDDFA AR Y LLAWR GWAELOD, AC UN AR Y LLAWR CYNTAF YN YR HEN GOLOMENDY, ODDI AR HEOL CILGANT
Dim gwrthwynebiad. Fe'i croesawir yn fawr ac mae mewn lleoliad addas.

E/12911 DYMCHWEL GAREJ ER MWYN ADEILADU TŶ 3 YSTAFELL WELY YNG NGHEFN 11, ADEILADAU'R BANC
Sylwadau : Cyflwynwyd llythyr o wrthwynebiad yn y cyfarfod oddi wrth Mr Johnathon Roberts. Hefyd sylwadau o wefan CSC ar y datblygiad unedol i'w ystyried.
Barn y Cyngor – Datblygiad hollol anaddas. Nid yw'r fynedfa yn addas. Pryder ynghylch datblygiad yn yr ardal gadwraeth hon.

E/12912 NEWID DEFNYDD Y LLAWR GWAELOD YN DDWY UNED SIOPA (A1 & A2) YN CYNNWYS NEWID BLAEN DWY SIOP YN ÔL I ARDDULL FICTORAIDD. LLAWR GWAELOD, 5, STRYD Y FARCHNAD.
Sylwadau – Cefnogi ar yr amod bod gofynion ardal gadwraeth yn cael eu cwrdd.

E/12960 ADEILADU ESTYNIAD AIL LAWR YNG NGHEFN 97, HEOL RHOSMAEN.

6774 / Mai/ 06 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

Cymeradwywyd y cais canlynol gan adran gynllunio'r Sir:-

E/12499 DARPARU LLE PARCIO CERBYD AR GYFER YR EIDDO PRESWYL - GYFERBYN Â PHANT Y CELYN, CLOS WERN, GARTH MADRYN

Gwrthodwyd y cais canlynol gan adran gynllunio'r Sir :-

E/09572 YCHWANEGU ARWYDD SIOP WRTH YMYL DRWS FFRYNT LONDON HOUSE 60, HEOL RHOSMAEN.

6775 / Mai/ 06 Trafnidiaeth

Adroddodd y Cyng Colin Jenkins bod sawl cwyn wedi'u gwneud gan drigolion ynghylch cŵn yn baeddu ar hyd Heol Cilgant, Heol Alan, Parc Penlan yn ogystal â

mannau eraill yn y Dref. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at Wasanaethau Stryd CSC yn annog yr adran honno i weithredu eu polisïau er mwyn lleihau'r broblem. Hefyd dylid gofyn iddynt osod arwyddion clir ar lwybr troed Ysgubor Abad yn arbennig.

6776 / Mai / 06 Adroddiad ar Lwybrau Troed.

Adroddodd y Swyddog Technegol bod y dogfennau Tendr wedi'u hanfon allan parthed cynnal a chadw llwybrau troed yn 2006-7. Tendrau i'w hanfon yn ôl i'r Clerc erbyn 4pm, ar 30ain Mai. Bydd y Maer, Dirprwy Faer a Chadeirydd Cyllid a Chadeirydd Cynllunio yn ystyried y rhain am 5pm y diwrnod hwnnw.

6777 / Mai / 06 Ffordd Osgoi Arfaethedig Llandeilo

Cafwyd trafodaeth yn dilyn cais gan LCC am farn y Cyngor ar y cynigion yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn y Neuadd Ddinesig.
Argymhellwyd y cynigion canlynol gan y Cyng Ros Bellamy i'r penderfynu yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn ar Fai 24ain :-

1. A yw'r Cyngor Tref o'r farn bod angen ffordd osgoi?
2. A yw'r Cyngor yn cefnogi unrhyw o ffyrdd arfaethedig LlCC ?

Eiliwyd y rhain gan y Cyng Pam Steane Price. Wnaeth y mwyafrif bleidleisio dros y cynnig.

6778 / Mai / 06 Gohebiaeth

1. CSC – Hysbysiad o'r enw newydd i'r adeilad fydd yn cael ei ddefnyddio fel y Ddeintyddfa – Yr Hen Golomendy

2. CSC – Parthed- ein gohebiaeth ar wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer Popty 'Knead the Dough' Cydnabyddiaeth a rhagor o fanylion i ddilyn.

3. Llythyr oddi wrth Regan Norris gyda chynlluniau ar gyfer y newidiadau arfaethedig yn Neuadd y Sir.

4. Cwyn gan aelod o'r cyhoedd mewn perthynas â'r angen i dorri porfa o amgylch y safle mwynderau.
   - Clerc i anfon y gŵyn ymlaen at CSC.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10pm